**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Ceredigion**
**Public Services Board**

Caru·Love Ceredigion

**Cyfarfod 40**
**16 Medi 2024, 14:00-16:00**
**Cyfarfod Rhithiol ar Teams**

**COFNODION**

| **Yn bresennol:** | |
|---|---|
| Hazel Lloyd Lubran (HLL) | Cadeirydd, CAVO |
| Gavin Bown (GB) | Is-gadeirydd, Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Gillian Perry (GP) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Barry Rees (BR) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Gwilym Dyfri Jones (GDJ) | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| Greg Jones (GJ) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Prif Arolygydd dros dro Steve Davies (SD) | Heddlu Dyfed-Powys |
| Y Cynghorydd Bryan Davies | Cyngor Sir Ceredigion |
| Iwan Cray (IC) | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Trina Nealon (TN) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| George Holloway (GH) | Un Llais Cymru |
| Steve Thomas (ST) | Prifysgol Aberystwyth |
| Vanessa Cashmore (VC) | Coleg Ceredigion / Coleg Sir Gâr |
| Pat Smith (PS) | Yr Adran Waith a Phensiynau |
| Shan Gwyn (SG) | Yr Adran Waith a Phensiynau |
| **Hefyd yn bresennol:** | |
| Alun Williams (AW) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Y Cynghorydd Catrin Davies (CD) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Amy Richmond-Jones | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Mererid Lewis (LD) | Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru |
| Cynghorydd Wyn Evans | Cyngor Sir Ceredigion |
| Chesca Ross (CR) | CAVO |
| Melanie Walters (MW) | Cyngor Sir Ceredigion |
| **Tîm Cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:** | |
| Diana Davies (DD) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Tim Bray (TB) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Neris Davies (ND) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Sara Dafydd (SD) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Teleri Elias | Cyngor Sir Ceredigion *(Cofnodion)* |
| Rhidian Jones | Cyngor Sir Ceredigion (Cyfieithu) |
| **Aelodau'r Cyhoedd a oedd yn mynychu** | |
| James Davies - Gwylio | |

| **40.1** | **Ymddiheuriadau, Cyflwyniadau a Datgeliadau o Ddiddordeb** |
|---|---|

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
**Nodwyd ymddiheuriadau gan y canlynol:**
Dr Ardiana Gjini – Hywel Dda University Health Board
Peter Skitt – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Mandy Evans – Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru
Claire Bryant – Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddeg
Dr Andrew Cornish - Coleg Ceredigion / Coleg Sir Gâr
Elen James – Cyngor Sir Ceredigion
Cynghorydd Matthew Vaux – Cyngor Sir Ceredigion
Cynghorydd John Davies – Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Linda Jones – Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
Victoria Jones – Llywodraeth Cymru

| | |
|---|---|
| **40.2** | **Cofnodion cyfarfod blaenorol BGC Ceredigion – 18 Gorffennaf 2024** |

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18.07.2024 fel rhai cywir.

| | |
|---|---|
| **40.3** | **Materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol 18 Gorffennaf 2024** |

Mae'r holl gamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol ar 18.07.2024 wedi'u cwblhau neu eu cynnwys yn yr agenda.

Cafwyd trafodaeth ynghylch y camau gweithredu canlynol:

- **Timothy Bray a Claire Bryant i drafod digwyddiadau lleol yn seiliedig ar yr ymgynghoriad Cynllun yr Heddlu a Throseddu. <u>Cyflawnwyd</u>**

Bu Timothy Bray (TB) a Claire Bryant (CB) yn trafod Cynllun Heddlu a Throseddu drafft Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer 2025-2029. Mae dyddiadau ar gyfer digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned ym mis Medi wedi'u dosbarthu i'r BGC, gan gynnwys dolen i gael mynediad i'r arolwg ymgynghori. Rhannwyd yr wybodaeth hon hefyd gyda'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (PDC). Anogwyd yr holl bartneriaid i ymateb i'r ymgynghoriad.

- **Pob aelod i ystyried y ddogfen Gwaith Teg a ddosbarthwyd yn flaenorol. Ystyried sefydlu Tasg a Gorchwyl i archwilio hyn ymhellach yn dilyn trafodaeth gyda'r Is-grŵp Tlodi. <u>Cyflawnwyd</u>**

Yn ystod cyfarfod diweddar o Gadeiryddion BGC, cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r rhaglen Gwaith Teg. Cytunwyd y byddai sefydlu Grŵp Tasg a Gorchwyl yn cael ei ystyried.
**Cam Gweithredu: Y Tîm Partneriaethau i gylchredeg e-bost yn dilyn y cyfarfod yn gofyn am wirfoddolwyr gyda'r nod o gynnull Grŵp Tasg a Gorchwyl i ystyried Gwaith Teg ymhellach.**

- **Bydd y Grŵp Cyflawni Hinsawdd a Natur yn cynnal gweithdy ar yr Asesiad Risg Newid Hinsawdd (ARNH) yn ystod cyfarfod yn y dyfodol, gydag aelodau eraill o'r Grŵp Cyflawni yn cael eu gwahodd. <u>Cyflawnwyd</u>**

Cynhelir gweithdai ARNH yn seiliedig ar Fframwaith ARNH a ddarperir gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), a thempledi a ddarperir gan Dîm Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru. Nid yw'r dyddiadau ar gyfer y gweithdai wedi'u trefnu eto.

Rhoddodd Gavin Bown (GB) y wybodaeth ddiweddaraf am Ganolfannau Ymwelwyr Ynys Las a Nant yr Arian. Daeth Ymgynghoriad Undeb Llafur CNC i ben ar 13 Medi, a oedd yn amlinellu ystod o gynigion. Roedd y rhain yn cynnwys cynigion na fyddai CNC bellach yn gweithredu gwasanaethau arlwyo a manwerthu yn y Canolfannau, ac i grwpiau cymunedol a phartneriaid gael eu gwahodd i ymgymryd â'r darpariaethau. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad bellach yn y broses o gael eu hadolygu, a bydd penderfyniad yn cael ei wneud gan Fwrdd CNC ym mis Hydref. Yn ddibynnol ar y canlyniad, bydd ymgysylltu â grwpiau perthnasol yn cael eu cynnal wedi hyn. Cynigiodd y Cynghorydd Bryan Davies (BD) y byddai ymarfer myfyriol wedi'i gynnal gan CNC yn dilyn yr ymgynghoriad yn fuddiol.

| | |
|---|---|
| **40.4** | **Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-28: Diweddariad Cynllun Cyflawni ac Adroddiad Blynyddol 2023-2024**<br>- **Adolygiad o'r Traciwr Gweithgareddau (Cyfarfod 40)** |

Cyflwynodd TB y Traciwr Gweithgareddau i'r Bwrdd, a oedd wedi'i ddiweddaru a'i ddosbarthu gyda'r adroddiadau cyn y cyfarfod. Mewn perthynas â *Gweithredu 1/D3: Esbonio cynrychiolaeth BGC ar Fwrdd y PSRh*, cytunodd y Bwrdd fod cynrychiolaeth BGC ar y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (PSRh) yn ddigonol, gydag aelodau o Goleg Ceredigion a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) yn mynychu'r ddau gyfarfod, ac yn gweithredu fel cyswllt.

**Penderfyniad: Cytunodd pawb fod y ddau aelod o'r BGC, sy'n cynrychioli Coleg Ceredigion a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) yn parhau i weithredu fel cyswllt rhwng y Bwrdd a'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (PSRh) mewn cyfarfodydd.**

Bydd cynnydd a diweddariadau ar sail y Traciwr Gweithgareddau yn cael eu hadrodd ym mhob cyfarfod BGC. Bydd unrhyw rwystrau'n cael eu trafod hefyd.

O ran *Gweithredu 2/C1: Darparu diweddariadau i BGC ar Greu Newid Gyda'n Gilydd yng Ngheredigion sy'n parhau i fod yn eitem sefydlog ar agenda'r Grŵp Cyflenwi Llesiant yn Llanbedr Pont Steffan,* adroddodd Trina Nealon (TN) fod cyfarfod nesaf grŵp llywio y Model Cymdeithasol ar gyfer Iechyd a Llesiant (MCILl) wedi'i drefnu ar gyfer 1 Hydref 2024. Mynychodd Dirprwy Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol y cyfarfod diwethaf. Cytunwyd ar egwyddorion a diffiniad MCILl, ac mae'r grŵp llywio yn gweithio ar Fframwaith a Siarter arfaethedig a fydd yn cael ei lansio mewn digwyddiad Uwchgynhadledd yng Ngwanwyn 2025 gyda chynrychiolaeth gan Lywodraeth Cymru (LlC).

| 40.5 | **Adroddiad Blynyddol Drafft 2023-2024** |
|---|---|

Diolchodd TB i'r holl bartneriaid am eu hawgrymiadau gwerthfawr ar Adroddiad Blynyddol drafft BGC ar gyfer fideo 2023-2024. Yn dilyn yr adborth hwn, mae crynodeb cyflenwol bellach wedi'i greu i gyd-fynd â'r fideo. Dosbarthwyd yr Adroddiad Blynyddol i'r aelodau gyda'r adroddiadau cyn y cyfarfod.

**Penderfyniad: Bod y BGC yn cymeradwyo'r grynodeb a fideo'r Adroddiad Blynyddol 2023-2024.**

Nododd TB, yn dilyn y gymeradwyaeth hon, y byddai trefniadau yn cael eu gwneud i gyfieithu'r grynodeb. Yna byddai'r ddogfen derfynol yn cael ei dosbarthu i bartneriaid a'i dosbarthu i'r partïon swyddogol perthnasol. Yna, byddai'r Adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan y BGC.

Cynigiwyd y dylid cynhyrchu darn rhagarweiniol byr er mwyn rhannu'r adroddiad ar gyfryngau cymdeithasol.

**Cam Gweithredu: Y Tîm Partneriaethau i gynhyrchu darn rhagarweiniol byr er mwyn rhannu Adroddiad Blynyddol y Cynllun Llesiant Lleol ar y cyfryngau cymdeithasol, a rhannu'r ddogfen derfynol unwaith y bydd y grynodeb wedi'i gyfieithu.**

| 40.6 | **Digwyddiadau Gwybodaeth y Cynllun Lles** |
|---|---|

Gofynnodd HLL i bartneriaid hysbysu'r Tîm Partneriaethau am unrhyw ddigwyddiadau y gallai'r BGC fynychu i hyrwyddo'r Cynllun Llesiant. Dosbarthwyd Cofnod Digwyddiadau gyda'r adroddiadau cyn y cyfarfod, a oedd yn cynnwys manylion am ddigwyddiadau blaenorol a fynychwyd eisoes gan y Tîm Partneriaethau a CAVO, yn ogystal â digwyddiadau yn y dyfodol a fyddai'n rhoi cyfleoedd i hyrwyddo gwaith y BGC a'r Cynllun Llesiant Lleol.

Eglurodd TB fod y Tîm Partneriaethau wedi mynychu Diwrnod Chwarae RAY yn Aberaeron yn ddiweddar, a roddodd gyfle i ymgysylltu â chynulleidfa o wahanol oedrannau, gan arwain at sgyrsiau a mewnwelediadau gwerthfawr ynghylch yr hyn mae llesiant yn ei olygu i drigolion Ceredigion. Cynigiwyd bod yr ymatebion yn cael eu casglu, ac y gellid rhannu unrhyw themâu sy'n dod i'r amlwg gyda'r BGC gan y gallai'r wybodaeth hyn fod yn ffynhonnell ysbrydoliaeth ar gyfer sesiynau tynnu sylw. Bwriedir i'r Log Digwyddiadau gael ei gadw fel dogfen weithiol, i'w diweddaru a'i chyflwyno ym mhob cyfarfod BGC er mwyn i bartneriaid ystyried, cyflwyno awgrymiadau a

gwirfoddoli i fod yn bresennol.

**Cam Gweithredu: Y Tîm Partneriaethau i rannu adborth a gasglwyd yn nigwyddiad Diwrnod Chwarae RAY gydag aelodau BGC.**

| 40.7 | Diweddariad y Cadeirydd: |
|---|---|

**i. Adborth Digwyddiad Comisiynydd CD – Llanbedr Pont Steffan**
Yn ystod mis Medi, mynychodd HLL a TB Fferm Holden, Llanbedr Pont Steffan ar gyfer digwyddiad a gynhaliwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd y digwyddiad yn canolbwyntio'n benodol ar fwyd, a'i gysylltiad â iechyd a lles. Nododd HLL y bu sgwrs gydag aelod o Sefydliad y Merched (WI) yn ystod y digwyddiad, a fynegodd eu diddordeb mewn cysylltu a chydweithio â'r BGC. Atgyfnerthodd y Comisiynydd bwysigrwydd cydweithio â ffermwyr fel cyfrannwyr annatod i'r datrysiad. Nododd TB fod Peter Holden yn awyddus i'r BGC ymweld â'r Fferm ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.

Yn ystod y cyfarfod, nodwyd mater sy'n codi'n gyson i sylw grŵp y Comisiynwyr, sef bod cymunedau gwledig dan anfantais o ran cymryd rhan mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd yng Nghaerdydd oherwydd heriau logistaidd.

Mae tîm CCD wedi cychwyn academi i unigolion ifanc yn Llambed sy'n rhan o waith y Comisiynydd, cynhaliwyd eu sesiwn gyntaf ym Mhrifysgol Llanbedr Pont Steffan, a chymerodd HLL ac AW ran yn y sesiwn agoriadol.

**ii. Sesiynau Tynnu Sylw yn y Dyfodol – Awgrymiadau ar gyfer Cyfarfod mis Rhagfyr**
Yn dilyn adolygiad o'r Traciwr Gweithgareddau. , mae sawl pwnc wedi'u nodi ar gyfer sesiynau tynnu sylw posibl yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys Cysylltedd Digidol, Sgiliau, Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru, Ymagwedd Systemau Cyfan at Bwysau Iach, Rhaglen Llunio Lleoedd, Ymgysylltu, Trafnidiaeth a Gwaith Teg.

Cytunwyd y byddai cyfarfod mis Rhagfyr yn canolbwyntio ar yr Ymagwedd Systemau Cyfan at Bwysau Iach. Bydd sesiynau gweithdy hefyd yn cael eu cynnal fel rhan o'r Grwpiau Cyflenwi Llesiant yn Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi. Gobeithir y byddai trafodaeth ynghylch y Siarter Teithio yn cyd-fynd â hyn gan fod cysylltiadau amlwg.

Awgrymodd HLL y dylid ailedrych ar yr eitem hon ym mhob cyfarfod fel y gellir parhau i gasglu argymhellion ar gyfer sesiynau tynnu sylw yn y dyfodol, ac y gellid casglu adborth o sesiynau blaenorol drwy'r Traciwr Gweithgareddau.

| 40.8 | Diweddariadau Grŵp Cyflenwi BGC: |
|---|---|

i. **Grŵp Cyflenwi Hinsawdd a Natur** (Gillian Perry, Cyfoeth Naturiol Cymru)
Rhannwyd cofnodion y Grŵp Cyflenwi Hinsawdd a Natur o gyfarfod mis Gorffennaf gyda'r adroddiadau cyn y cyfarfod. Eglurodd Gillian Perry (GP) fod y Grŵp Cyflenwi yn gwneud cynnydd ar y gwaith Asesu Risg Newid Hinsawdd (ARNH). Cynigiodd y Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru gynnal gweithdai i lunio'r gwaith, ar ôl gwneud gwaith tebyg yng Nghaerfyrddin. Mae'r Grŵp Cyflenwi hefyd yn edrych i weithio'n agos â Phrifysgol Aberystwyth ar y gweithdai. Awgrymodd GP y gallai fod yn fuddiol clywed gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill sydd wedi mynd yn eu blaen â'r ARNH er mwyn rhannu ymarfer da a dysgu.

**Cam Gweithredu: Trafodaethau pellach i'w cynnal rhwng Timothy Bray a Chyd-Gynhyrchu Rhwydwaith Cymru ynghylch cynnal gweithdai ARNH.**

Cadarnhaodd GP hefyd y bydd yn gadael ei rôl gyda CNC ddiwedd mis Hydref ac o ganlyniad bydd hefyd yn rhoi'r gorau i'r rôl fel Cadeirydd y Grŵp Cyflenwi Hinsawdd a Natur. Ar hyn o bryd, nid oes Is-gadeirydd all ymgymryd â'r rôl. Diolchodd HLL i GP am ei chyfraniad i'r BGC a'r Grŵp Cyflenwi Hinsawdd a Natur dros y blynyddoedd. Cadarnhaodd GB y byddent yn ceisio eilydd o CNC i fod yn Gadeirydd y Grŵp Cyflenwi Hinsawdd a Natur.

Mae CNC wrthi'n cynnal ymgynghoriad mewnol ar ei adnoddau a'i strwythurau. Cadarnhaodd GP fod hyn yn cynnwys yr adnoddau o fewn CNC sydd wedi'u clustnodi i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r ARNH. Dywedodd GP, o ystyried ei hymadawiad, a'r ansicrwydd ynghylch y lefel uniongyrchol o gefnogaeth y gall CNC ei chynnig ynghylch y ARNH, y dylid ystyried amserlen ar gyfer y gwaith hwn. Cadarnhawyd nad oes risg i gyfranogiad cyffredinol y bartneriaeth.

Bydd y cyfarfod Hinsawdd a Natur nesaf yn cael ei gynnal ar 14 Hydref.

---

**ii. <u>Grŵp Cyflenwi Llesiant Llanbedr Pont Steffan</u>** *(Greg Jones, CSC)*
Rhannwyd cofnodion cyfarfod mis Gorffennaf Grŵp Llesiant Llanbedr Pont Steffan gyda'r adroddiadau cyn y cyfarfod. Adroddodd Greg Jones (GJ) fod Sioe Iechyd a Llesiant Llanbedr Pont Steffan a drefnwyd yn wreiddiol ar gyfer mis Awst wedi'i gohirio, fodd bynnag, mae trafodaethau'n parhau gyda'r Tîm Allgymorth Datblygu Cymunedol i aildrefnu'r digwyddiad. Cafwyd cyflwyniad gan Terri-Ann Patrick, sy'n arwain Peilot Gofal Canolradd a Thîm Aml-Asiantaeth (TA) Lleoliad-Llambed. Mae'r prosiect yn bwriadu trawsnewid ac adeiladu ar y ffordd y mae Ymarfer Cyffredinol, gofal eilaidd, gwasanaethau iechyd cymunedol, gwasanaethau'r Awdurdod Lleol a'r trydydd sector yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu gofal canolradd integredig sy'n seiliedig ar leoliad sy'n canolbwyntio ar y claf. Rhoddwyd cyflwyniad hefyd ar y prosiect Cymunedau Cynaliadwy, sy'n cynnal cynulliadau cymdeithasol wythnosol gyda'r prif amcan o fynd i'r afael â, ac yn lliniaru nifer yr achosion o ynysu ac unigrwydd yn y gymuned leol. Mae'r prosiect hefyd yn ceisio cydlynu a chysylltu gwirfoddolwyr ag unigolion bregus i gefnogi parhad byw'n annibynnol.

Cadarnhaodd GJ fod Grŵp Llywio Prosiect Ieuenctid Llambed wedi cyfarfod - Rhoddwyd diweddariadau ar lansiad Llyw a Byw, sef caffi ieuenctid symudol a gwasanaeth cymorth wedi'i staffio gan Weithwyr Cymorth Ieuenctid cymwysedig, Tîm Cefnogi ac Atal Cyngor Sir Ceredigion, yn ogystal â '*Stage Goats'* sydd wedi derbyn arian y Loteri i agor caffi ieuenctid, a chyllid gan Cynnal y Cardi ar gyfer prosiect celfyddydol. Bydd cyfarfod nesaf Llesiant Llanbedr Pont Steffan yn cael ei gynnal ar 17 Hydref.

---

**iii. SESIWN TYNNU SYLW: Grŵp Cyflenwi Llesiant Aberteifi** *(Hazel Lloyd Lubran, CAVO)*
Rhannwyd cofnodion cyfarfod mis Gorffennaf Grŵp Cyflenwi Llesiant Aberteifi gyda'r adroddiadau cyn y cyfarfod. Adroddodd HLL fod y Grŵp Cyflenwi wedi derbyn cyflwyniad ar y sesiynau Haf o Hwyl a gynhaliwyd yn ystod gwyliau'r ysgol. Derbyniwyd diweddariad hefyd ar y prosiectau a ariannwyd gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (CFfG), a thrafodaeth ynghylch dyfodol y gronfa a ddaw i ben ym mis Rhagfyr. Atgyfnerthodd BD bwysigrwydd y cyllid, a nododd fod Ceredigion wedi elwa'n fawr ohono. Bydd cyfarfod nesaf Llesiant Aberteifi yn cael ei gynnal ar 24 Hydref, lle bydd diweddariad pellach ar gynnydd yn ymwneud â'r Ganolfan Llesiant yn Aberteifi yn cael ei rannu.

- **Cyflwyniad Cymunedau Oed-gyfeillgar** *(Melanie Walters, CCC)*

Cyflwynodd Melanie Walters (MW) ei hun i'r grŵp fel Cydlynydd Gofalwyr a Chymorth Cymunedol Cyngor Sir Ceredigion gyda chyfrifoldeb penodol am y Strategaeth Cymunedau sy'n Oed-gyfeillgar. Rhoddodd MW gyflwyniad i'r grŵp ar Gymunedau sy'n Oed-gyfeillgar. a gellir dod o hyd i wybodaeth yn yr atodiad isod:

Age Friendly
Ceredigion Presentati

Bydd digwyddiad Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn 2024 yn cael ei gynnal ym Mhenmorfa, Aberaeron ar 30 Medi. Mae'r Fforwm Oed-gyfeillgar yn ymgynnull bob chwarter, gyda'r cyfarfod nesaf wedi'i

| | |
|---|---|
| drefnu ar gyfer diwedd mis Tachwedd. Y prif bwnc trafod ar gyfer cyfarfod mis Tachwedd fydd trafnidiaeth. Unwaith y bydd thema wedi'i nodi ar gyfer cyfarfodydd, awgrymodd HLL y gellid rhannu hyn gydag aelodau'r BGC i benderfynu a all partneriaid gefnogi trafodaethau.<br><br>Bydd cylchlythyr yn cael ei lansio ym mis Tachwedd, ac yna bydd Cynllun Oed-gyfeillgar yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno i Sefydliad Iechyd y Byd. Os hoffai partneriaid rannu unrhyw wybodaeth fel rhan o'r Cylchlythyr Oed-gyfeillgar, gellir anfon manylion i flwch mewnol y Bartneriaeth. Nodwyd y byddai Grwpiau Cyflenwi Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi yn ceisio ymgysylltu'n ymarferol â'r gwaith hwn wrth fynd yn eu blaen.<br><br>Mae Cyfeirlyfr Ceredigion Oed-gyfeillgar hefyd ar gael ar-lein ar [wefan Cyngor Sir Ceredigion.]<br><br>**Cam Gweithredu: Y Tîm Partneriaethau i gylchredeg cyflwyniad Cymunedau Oed-gyfeillgar a'r amserlen ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn 2024.** | |
| **40.9** | **Cyflwyniad a Diweddariad gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol** |
| Nid oedd Linda Jones yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod hwn, felly darparodd HLL ddiweddariad i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh). Cynhaliwyd gweithdy ym mis Medi, ac mae un arall wedi'i gynllunio ar gyfer yr Hydref i adolygu gwaith y Bwrdd, ei weithgorau amrywiol a'i bartneriaid. Bydd ffocws y Fforwm hefyd yn cael ei adolygu. Bydd adroddiad cynhwysfawr sy'n manylu ar yr addasiadau a wnaed i'r Bwrdd Rhanbarthol yn cael ei rannu â phartneriaid y BGC unwaith y bydd wedi'i gwblhau. | |
| **40.10** | **Strategaeth PDC** |
| Mae Strategaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion ar gyfer 2024-2027 bellach wedi'i chwblhau, ac fe'i dosbarthwyd ynghyd â'r adroddiadau cyn y cyfarfod. Cadarnhaodd TB fod y Strategaeth hefyd wedi'i hystyried gan Bwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu CSC ar 17 Gorffennaf 2024. Y camau nesaf fydd cyhoeddi'r Strategaeth ar dudalen we y PDC, a thargedu'r blaenoriaethau a nodwyd. | |
| **40.11** | **Adborth gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion** |
| Rhoddodd y Cynghorydd Wyn Evans (WE) adborth o gyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar 12 Medi. Nodwyd pwysigrwydd atgyfnerthu prosiect ARFOR y sir, yn ogystal â thrafodaeth ynghylch Gwaith Teg. Trafodwyd ymgysylltu hefyd. Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 7 Tachwedd. | |
| **40.12** | **Unrhyw fater arall:** |
| Ni nodwyd unrhyw fater arall gan bartneriaid. | |
| | **Dyddiad y cyfarfod nesaf:**<br>2 Rhagfyr 2024 am 14:00-16:00 |

| **Cofnod o'r camau gweithredu sy'n parhau** | | |
|---|---|---|
| **1.** | Y Tîm Partneriaethau i gylchredeg e-bost yn dilyn y cyfarfod yn gofyn am wirfoddolwyr gyda'r nod o gynnull Grŵp Tasg a Gorchwyl i ystyried Gwaith Teg ymhellach. | Tîm Partneriaethau |
| **2.** | Y Tîm Partneriaethau i gynhyrchu darn rhagarweiniol byr er mwyn rhannu Adroddiad Blynyddol y Cynllun Llesiant Lleol ar y cyfryngau cymdeithasol, a rhannu'r ddogfen derfynol unwaith y bydd y grynodeb wedi'i gyfieithu. | Tîm Partneriaethau |
| **3.** | Y Tîm Partneriaethau i rannu adborth a gasglwyd yn nigwyddiad Diwrnod Chwarae RAY gydag aelodau BGC. | Tîm Partneriaethau |
| **4.** | Trafodaethau pellach i'w cynnal rhwng Timothy Bray a Chyd-Gynhyrchu | Tim Bray |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhwydwaith Cymru ynghylch cynnal gweithdai ARNH. | Mandy Williams<br>Mererid Lewis |
| **5.** | Y Tîm Partneriaethau i gylchredeg cyflwyniad Cymunedau Oed-gyfeillgar a'r amserlen ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn 2024. | Tîm Partneriaethau |